# Trwyddedu DAB ar raddfa fach

Adroddiad Cynnydd

Cyhoeddwyd: 22 Hydref 2024

# Cynnwys

## Adran


1. Trosolwg ... 3
2. Yr amlblecsau ... 6
3. Gwasanaethau rhaglenni ... 15
4. Cynllunio ac adeiladu amlblecs ... 21
5. Y tu hwnt i Rownd Chwech ... 26

# 1. Trosolwg

1.1 Mae DAB ar raddfa fach yn ffordd o drawsyrru radio digidol. Mae'n defnyddio datblygiadau mewn meddalwedd a thechnoleg gyfrifiadurol rad i ddarparu dull hyblyg a fforddiadwy o ddarlledu gwasanaethau radio digidol yn ddaearol i ardaloedd daearyddol cymharol fach.

1.2 Mae pob amlblecs ar raddfa fach y mae Ofcom yn ei drwyddedu yn caniatáu i orsafoedd lleol gael presenoldeb ar y tonnau awyr digidol, gan gynnwys gwasanaethau cymunedol ar lawr gwlad, gorsafoedd cerddoriaeth arbenigol, a gwasanaethau sydd wedi'u hanelu at grwpiau lleiafrifol a chynulleidfaoedd eraill nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol.

1.3 Rhan bwysig o'r rhesymeg polisi dros gyflwyno DAB ar raddfa fach oedd hwyluso llwybr at DAB ar gyfer gorsafoedd radio cymunedol analog (FM neu AM) presennol, yn ogystal â gwasanaethau radio masnachol llai neu fwy arbenigol sydd wedi'i chael hi'n anodd cael a fforddio slotiau ar yr amlblecsau radio lleol presennol sy'n gwasanaethu ardaloedd llawer mwy.

## Diben yr adroddiad hwn

1.4 Ar ôl i Senedd y DU gymeradwyo Gorchymyn Amlblecs Radio ar Raddfa Fach a Radio Digidol Cymunedol 2019, dyfarnodd Ofcom ei drwyddedau amlblecs ar raddfa fach cyntaf ym mis Mawrth 2021, ar ôl ymgynghori ar ein dull o drwyddedu DAB ar raddfa fach yn ystod 2019/20.

1.5 Rydym nawr wedi cwblhau pum rownd o drwyddedu amlblecs, ac ar hyn o bryd rydym yn asesu'r 33 cais a ddaeth i law ar gyfer Rownd Chwech.

1.6 Mae'r adroddiad cynnydd hwn yn dilyn ein cyhoeddiad cychwynnol ar y galw am amlblecsau DAB ar raddfa fach yn y tair rownd drwyddedu gyntaf ym mis Mai 2022. Mae'n ystyried y materion allweddol canlynol:

- Lefel y galw hyd yma o ran y rheini sy'n dymuno gweithredu amlblecsau a gan ddarparwyr gwasanaethau rhaglenni;
- nifer ac ystod yr amlblecsau a'r gwasanaethau rhaglenni rydym wedi'u trwyddedu hyd yma;
- y rhesymau pam mae rhai gwasanaethau amlblecs wedi methu â lansio ar ôl cael trwydded;
- i ba raddau y mae'r capasiti ar bob amlblecs ar raddfa fach, gan gynnwys capasiti a neilltuwyd ar gyfer gwasanaethau rhaglenni sain digidol cymunedol, yn cael ei ddefnyddio;
- rhai o'r heriau technegol y mae'r rheini sydd wedi cael trwyddedau wedi'u hwynebu wrth gynllunio ac yna lansio eu hamlblecsau; a'r
- potensial ar gyfer trwyddedu pellach.

# Crynodeb o'r canfyddiadau[1]

1.7 Mae lefel dda o alw wedi bod am drwyddedau amlblecs ar raddfa fach, gyda 212 o geisiadau wedi dod i law ar gyfer y 167 o ardaloedd sydd wedi cael eu hysbysebu.

1.8 Hyd yma, dyfarnwyd 115 o drwyddedau, gyda 64 o amlblecsau wedi'u lansio cyn belled. Rhyngddynt, maent yn cwmpasu 30.3% o boblogaeth oedolion y DU. Mae nifer yr amlblecsau ar yr awyr yn debygol o gynyddu'n sylweddol y flwyddyn nesaf yn dilyn dyfarnu trwyddedau yn ddiweddar yn ne ddwyrain Lloegr.

1.9 Nid yw 14 o'r rhain a gafodd drwydded (12%) wedi gallu lansio eu hamlblecsau erbyn y dyddiad cau statudol ar gyfer lansio, sef 18 mis. Mae'r rhesymau dros hyn yn amrywio, ond yn y mwyafrif o achosion roedd y rheini a gafodd drwydded naill ai wedi rhedeg allan o amser i lansio eu hamlblecs, neu roeddent o'r farn bod yr amlblecs wedi dod yn fasnachol anhyfyw yn yr amser ers gwneud cais am y drwydded yn wreiddiol.

1.10 Roedd un amlblecs (Basingstoke) wedi gallu lansio, ond mae oddi ar yr awyr ar hyn o bryd yn dilyn methiant y trwyddedai gwreiddiol.

1.11 Dim ond lleiafrif o'r trwyddedeion sydd wedi gallu lansio eu gwasanaethau ar sail eu cynlluniau trawsyrru gwreiddiol a gyflwynwyd yn ystod y cam ymgeisio am drwydded. Er gwaethaf hyn, ar gyfartaledd, mae'r ddarpariaeth ddisgwyliedig sy'n cael ei darparu gan yr amlblecsau sydd wedi lansio yn cyd-fynd yn fras â'r hyn a ragwelwyd wrth ddyfarnu'r drwydded.

1.12 Ar gyfartaledd, mae wedi cymryd dros chwe mis yn hirach i lansio amlblecs na'r hyn a ragwelwyd yn wreiddiol gan ymgeiswyr am drwyddedau. Mae tua hanner y rhai a gafodd drwydded wedi dod ar yr awyr yn ystod mis olaf eu cyfnod lansio 18 mis, sy'n golygu nad oes llawer o amser wrth gefn pe bai anawsterau annisgwyl yn codi.

1.13 Rhyngddynt, mae'r amlblecsau a lansiwyd hyd yma yn cludo 590 o wasanaethau rhaglenni, ac mae 292 o'r rheini yn wasanaethau unigryw – sef ychydig dros naw gorsaf radio fesul amlblecs ar gyfartaledd. O'r 292 o wasanaethau rhaglenni unigryw hyn, mae 65% yn newydd-ddyfodiaid i ddarlledu radio daearol.

1.14 Mae tua 104 o wasanaethau rhaglenni wedi cael eu trwyddedu o dan drwyddedau DSP cymunedol ('C-DSP'), sy'n mynnu bod y gorsafoedd hynny'n cyflawni amcanion cymunedol penodol, ar yr awyr ac oddi ar yr awyr.

1.15 Ar gyfartaledd, mae'r amlblecsau a lansiwyd yn cludo un neu ddau o wasanaethau C-DSP a saith neu wyth o wasanaethau DSP.

1.16 Gwasanaethau sydd â naws leol, boed nhw'n rhai cymunedol neu fasnachol, yw'r categori mwyaf o orsafoedd unigryw (43%). Fodd bynnag, mae amlblecsau ar raddfa fach hefyd yn darparu nifer sylweddol o wasanaethau cerddoriaeth arbenigol (29%), gorsafoedd sy'n targedu cymunedau ethnig lleiafrifol a/neu gymunedau ffydd (17%) a gorsafoedd ffordd o fyw/cam bywyd (9.5%).

[1] Sylwch fod yr holl ffigurau yn y crynodeb hwn yn gywir ar 2 Medi 2024, felly ni fyddant yn cynnwys unrhyw wasanaethau amlblecs/rhaglenni a lansiwyd na dyfarniadau trwydded sydd wedi digwydd ers y dyddiad hwnnw.

1.17 Ar sail y dystiolaeth yn yr adroddiad hwn, rydym o'r farn bod cyflwyno DAB ar raddfa fach ledled y DU, hyd yma, wedi llwyddo i ddarparu mynediad at radio daearol digidol i ddarparwyr gwasanaethau rhaglenni (gan gynnwys gorsafoedd radio cymunedol analog) sydd ddim yn gallu sicrhau eu bod yn gallu cael eu cludo ar amlblecsau DAB lleol neu yn gallu fforddio gwneud hynny. Mae hyn wedi rhoi cyfleoedd i newydd-ddyfodiaid i'r diwydiant radio ac mae wedi cynyddu'r dewis i wrandawyr ar y llwyfan DAB.

1.18 Yn gyffredinol, mae gweithredwyr amlblecs mewn ardaloedd llai poblog wedi'i chael yn fwy anodd darparu amlblecsau sy'n ariannol hyfyw na gweithredwyr mewn ardaloedd trefol. Serch hynny, rydym wedi gweld nifer o amlblecsau'n cael eu lansio mewn ardaloedd llai poblog, ac mae amlblecsau llai yn dal i ddarparu manteision o ran dewis i ddefnyddwyr a chyfleoedd i wasanaethau newydd ac i wasanaethau sefydledig.

1.19 Rydym yn bwriadu cynnal dwy rownd arall o drwyddedu amlblecs ar raddfa fach, gan roi cyfle i bartïon sydd â diddordeb wneud cais am ardaloedd trwydded a oedd wedi'u cynnwys yn ein datganiad yn 2020, ond nad ydynt wedi cael eu hysbysebu eto. Rydym hefyd yn cynnig ail-hysbysebu rhai ardaloedd trwydded lle'r oedd y sawl y dyfarnwyd trwydded iddo wedi methu lansio o fewn y terfyn amser statudol o 18 mis, a hefyd rhai ardaloedd nad oedd wedi denu ceisiadau pan gawsant eu hysbysebu o'r blaen, ond lle rydym wedi cael datganiadau o ddiddordeb wedi hynny.

# 2. Yr amlblecsau

## Ceisiadau a dyfarniadau

2.1 Yn dilyn ymgynghoriad yn 2019, penderfynodd Ofcom y byddem yn hysbysebu trwyddedau amlblecs DAB ar raddfa fach mewn cyfres o rowndiau trwyddedu. Byddai'r rhan fwyaf o'r rowndiau hyn yn cynnwys cymysgedd o ardaloedd o bob cwr o'r DU, er i ni ddweud o'r cychwyn cyntaf y byddai angen hysbysebu a dyfarnu ardaloedd trwydded yng ngogledd orllewin Lloegr a gogledd ddwyrain Cymru, ac yn Llundain a de-ddwyrain Lloegr, gyda'i gilydd. Roedd hyn oherwydd y posibilrwydd y byddai prinder amleddau yn yr ardaloedd hyn, sy'n golygu efallai na fyddem wedi gallu dyfarnu yn yr holl ardaloedd trwydded a gafodd eu hysbysebu yn y rhanbarthau hyn. Byddai'r rhanbarthau hyn yn cael eu galw'n 'ardaloedd macro'.

2.2 Fel y digwyddodd pethau, roeddem wedi gallu dod o hyd i amleddau ar gyfer yr holl ymgeiswyr llwyddiannus yn y ddwy ardal facro.

2.3 Hyd yma, bu chwe rownd o drwyddedu amlblecs DAB ar raddfa fach, ac mae'r rhain wedi cael eu nodi yn Nhabl 1 isod (sylwch fod y tabl yn cynnwys ail-hysbysebu trwyddedau):

**Tabl 1: Rowndiau hysbysebu amlblecs**

| | Dyddiad yr hysbyseb | Dyddiad cau | Trwyddedau a hysbysebwyd | Ceisiadau a ddaeth i law | Trwyddedau heb unrhyw geisiadau | Dyfarniadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Rownd 1** | 1 Medi 2020 | 23 Tach 2020 | 25 | 45 | 0 | 25 |
| **Rownd 2** | 1 Mehefin 2021 | 1 Medi 2021 | 22 | 30 | 4 | 17 |
| **Rownd 3** | 23 Ion 2022 | 25 Ebrill 2022 | 25 | 32 | 5 | 20 |
| **Rownd 4** | 14 Gorff 2022 | 14 Hyd 2022 | 29 | 32 | 4 | 25 |
| **Rownd 5** | 30 Maw 2023 | 30 Mehefin 2023 | 35 | 40 | 6 | 28 |
| **Rownd 6** | 19 Ebrill 2024 | 18 Gorff 2024 | 31 | 33 | 6 | I'w cadarnhau |
| **Cyfanswm** | | | **167** | **212** | **25** | **115** |

2.4 Yn ystod y rhaglen drwyddedu, mae gostyngiad bach wedi bod yn nifer y ceisiadau a dderbyniwyd fel cyfran o'r trwyddedau a hysbysebwyd, a chynnydd bach yn nifer y trwyddedau heb unrhyw geisiadau.

2.5 Un rheswm tebygol dros y ddau duedd hyn yw mai un o'r ffactorau roedd Ofcom yn ei ystyried wrth benderfynu ym mha drefn y byddai'r trwyddedau yn cael eu

hysbysebu oedd lefel y galw a ddangoswyd drwy 'ddatganiadau o ddiddordeb' gan ddarpar ymgeiswyr am drwyddedau. Felly, yn gyffredinol (heb gynnwys yr ardaloedd macro), mae'r trwyddedau a gafodd eu hysbysebu mewn rowndiau diweddarach wedi tueddu i fod mewn ardaloedd lle mae llai o alw wedi'i fynegi. Gall amodau economaidd ehangach, a chostau ynni uwch a heriau o ran y gadwyn gyflenwi yn enwedig, fod yn ffactor hefyd. Efallai fod cydnabod y gallai fod yn fuddiol i grwpiau lleol weithio gyda'i gilydd ar gyflwyno un cais cryf hefyd wedi dylanwadu ar y gostyngiad yn nifer y trwyddedau a wrthwynebwyd, a'r cynnydd yn nifer y rhai ag un ymgeisydd. Mae hyn yn debygol o fod yn arbennig o wir yn y marchnadoedd llai lle mae nifer cyfyngedig o ddarlledwyr radio cymunedol sefydledig.

2.6 Ni chafodd yr ardaloedd trwydded a hysbysebwyd a nodir yn Nhabl 2 unrhyw geisiadau:

**Tabl 2: Trwyddedau na wnaed cais amdanynt, yn ôl rownd**

| | Trwyddedau na wnaed cais amdanynt |
|---|---|
| **Rownd Un** | Dim |
| **Rownd Dau** | Caer ac Ellesmere Port; Clitheroe; Y Rhyl, Rhuthun a'r Wyddgrug; Wirral. |
| **Rownd Tri** | Lincoln; Shaftesbury; Aberdeen (De); Hull (Dwyrain); Dundee. |
| **Rownd Pedwar** | Ynys Môn a Gogledd Gwynedd; Penrhyn Ards; Kendal a Windermere; Kintyre, Islay a Jura. |
| **Rownd Pump** | Canol Suffolk; Great Yarmouth a Lowestoft; Haverhill; Ipswich a Felixstowe; Gogledd Sussex a Reigate; De Swydd Buckingham. |
| **Rownd Chwech** | Pen-y-bont ar Ogwr; Catterick, Ripon a Thirsk; Erewash; Larne, Carrickfergus a Newtown Abbey; Weymouth, Dorchester a Bridport; Workington a Whitehaven. |

2.7 Mae'r rhestr uchod – fel y byddid yn ei ddisgwyl – yn cynnwys ardaloedd mwy ond llai poblog lle mae'r heriau technegol o sicrhau lefelau da o ran darpariaeth yn fwy a lle gallai'r galw o ran gwasanaethau rhaglenni fod yn is hefyd. Er nad oedd unrhyw geisiadau ar gyfer De Aberdeen a Dwyrain Hull, cafwyd ceisiadau am drwyddedau yn ardaloedd cyfagos Gogledd Aberdeen a Gorllewin Hull yn y drefn honno. Yn y ddau achos, mae'r rheini a gafodd drwydded ar gyfer Gogledd Aberdeen a Gorllewin Hull wedi newid eu cynlluniau trawsyrru gwreiddiol wedyn i gynnwys rhywfaint o'r boblogaeth a fyddai wedi cael eu gwasanaethu gan y trwyddedau amlblecs na wnaed cais amdanynt.

2.8 Hyd yma, dim ond dwy drwydded a hysbysebwyd ac y cawsom gais ar eu cyfer ond na chafodd eu dyfarnu a fu. O dan adran 51 o Ddeddf Darlledu 1996 (fel y'i haddaswyd gan Orchymyn Amlblecs Radio ar Raddfa Fach a Radio Digidol Cymunedol 2019), mae'r meini prawf dyfarnu statudol nid yn unig yn berthnasol i'r cwestiwn ynghylch pwy i ddyfarnu trwydded iddynt pan geir ceisiadau sy'n cystadlu â'i gilydd, ond hefyd a ddylid dyfarnu trwydded o gwbl o gofio dyletswyddau statudol eraill Ofcom, gan gynnwys ystyried defnyddio sbectrwm yn effeithlon.

Mewn dau achos, arweiniodd yr asesiad hwn at beidio â dyfarnu trwyddedau i ymgeiswyr unigol. Roedd y rhain ar gyfer Southport (Rownd Dau) a Biggleswade a Gogledd Swydd Hertford (Rownd Pump).

## Amlblecsau a lansiwyd

2.9 Ar 2 Medi 2024, roedd **64** o amlblecsau DAB ar raddfa fach wedi llwyddo i ddechrau darlledu cyn y dyddiad cau statudol o 18 mis, ac mae'r rhain wedi'u rhestru yn Nhabl 3 isod. Rhyngddynt, mae'r amlblecsau hyn yn gwasanaethu 15.7 miliwn o oedolion (15 oed a hŷn), sy'n cyfrif am 30.3% o boblogaeth oedolion y DU.

**Tabl 3: Amlblecsau a lansiwyd a thrwyddedeion**


| Amlblecs | Dyddiad lansio | Trwyddedai |
|---|---|---|
| **Aberdeen** | 15 Ion 2024 | Uned Cyfryngau Station House |
| **Basingstoke (*ddim ar yr awyr ar hyn o bryd*)** | 30 Tach 2022 | Basingstoke DAB Ltd |
| **Bedford** | 10 Chwef 2024 | In2DAB Ltd |
| **Belfast a Lisburn** | 23 Ion 2024 | Lagan SSDAB Ltd |
| **Blackburn, Burnley a Darwen** | 24 Hyd 23 | BBD Digital Ltd |
| **Blackpool** | 23 Awst 2022 | Fun Coast Digital C.I.C. |
| **Bolton a Bury** | 23 Hyd 2022 | Bolton Bury DAB Radio Ltd |
| **Bradford** | 11 Gorff 2022 | Bradford Digital Media Ltd |
| **Caergrawnt** | 29 Maw 2022 | Cambridge Digital Radio Ltd |
| **Caerdydd** | 27 Hyd 2022 | Cardiff DAB Ltd |
| **Swydd Gaer (dwyrain)** | 31 Hyd 2023 | Cheshire East DAB Ltd |
| **Swydd Gaer (canol)** | 12 Hyd 2023 | Cheshire Radio Ltd |
| **Clevedon, Avonmouth a Filton** | 14 Tach 2022 | Severnside Digital Radio CIC |
| **Congleton a Leek** | 1 Mai 2023 | Moorlands DAB Ltd |
| **Coventry** | 15 Rhag 2022 | Coventry Community Digital Radio CIC |
| **Crewe, Nantwich a Whitchurch** | 15 Mai 2023 | South Cheshire DAB Ltd |
| **Darlington a Bishop Auckland** | 29 Meh 2023 | Durham Digital Ltd |
| **Derry/Londonderry** | 2 Awst 2022 | Foyle DAB Ltd |
| **Doncaster** | 19 Awst 2024 | Higher Rhythm Ltd |
| **Dudley a Stourbridge** | 29 Hyd 2022 | Digimux Ltd |

| Amlblecs | Dyddiad lansio | Trwyddedai |
|---|---|---|
| **Dwyrain Bryste a Keynsham** | 10 Tach 2022 | Severnside Digital Radio CIC |
| **Caeredin** | 4 Gorff 2022 | Edinburgh DAB Ltd |
| **Caerwysg** | 9 Tach 2022 | ExeDab Ltd |
| **Glasgow** | 9 Awst 2022 | Glasgow DAB Ltd |
| **Glossop a Buxton** | 2 Hyd 2023 | High Peak One Digital Ltd |
| **Hull** | 15 Ebrill 2024 | Hull DAB Ltd |
| **Inverclyde** | 1 Awst 2024 | Coast DAB Ltd |
| **King’s Lynn** | 31 Hyd 2022 | North Norfolk Digital Ltd |
| **Leeds** | 25 Hyd 2022 | Leeds Digital Media Ltd |
| **Caerlŷr** | 8 Maw 2023 | Leicester Digital Partnership CIC |
| **Lerpwl** | 18 Hyd 2023 | Liverpool DAB Ltd |
| **Llwydlo** | 11 Maw 2024 | Murfin Media Digital Ltd |
| **Manceinion** | 5 Meh 2023 | Manchester DAB C.I.C. |
| **Middlesbrough a Redcar** | 27 Hyd 2023 | Erimux Ltd |
| **Milton Keynes** | 19 Ebrill 2024 | MK Digital Media Ltd |
| **Newcastle a Gateshead** | 1 Gorff 2022 | Tyneside Community Digital C.I.C. |
| **Casnewydd a Chas-gwent** | 4 Gorff 2024 | Gwent Digital Broadcasting Ltd |
| **Newry** | 15 Gorff 2024 | UlsterMux Ltd |
| **Gogledd Birmingham** | 8 Ebrill 2022 | Switch Radio |
| **Gogledd Swydd Buckingham** | 12 Meh 2024 | Bucks DAB Ltd |
| **Northampton** | 2 Awst 2024 | Northampton DAB C.I.C. |
| **Norwich** | 10 Hyd 2022 | Future Digital Norfolk Ltd |
| **Nottingham** | 26 Ion 2024 | Nottingham DAB Ltd |
| **Oldham a Rochdale** | 7 Tach 2023 | East Manchester Dab Ltd |
| **Rhydychen** | 17 Ebrill 2024 | Oxdab Ltd |
| **Peterborough** | 5 Awst 2024 | Hereward Digital Radio Ltd |
| **Plymouth** | 8 Tach 2023 | PlymDab Ltd |
| **Preston** | 31 Awst 2023 | Preston DAB Ltd |

| Amlblecs | Dyddiad lansio | Trwyddedai |
|---|---|---|
| **Rutland a Stamford** | 15 Ebrill 2024 | Creativity Media Services Ltd |
| **Caersallog** | 28 Maw 2022 | Muxcast One Ltd |
| **Sheffield a Rotherham** | 11 Awst 2022 | Shefcast Digital Ltd |
| **De Birmingham** | 14 Rhag 2022 | South Birmingham Digital Radio Ltd |
| **Southampton** | 1 Awst 2024 | Southampton Digital Radio Ltd |
| **Stirling a Falkirk** | 1 Tach 2023 | Central FM Ltd |
| **Stockport** | 29 Awst 2023 | Stockport Community SSDAB Ltd |
| **Stoke a Newcastle** | 3 Gorff 2023 | Alternative Broadcast Company |
| **Swindon a Marlborough** | 15 Maw 2024 | Community Radio Swindon Ltd |
| **Torbay** | 9 Tach 2023 | TorDab Ltd |
| **Tynemouth a South Shields** | 1 Rhag 2021 | Redarmy Group Ltd |
| **Warrington, Widnes a Runcorn** | 17 Awst 2023 | Warrington, Widnes a Runcorn DAB Ltd |
| **Caer-wynt** | 29 Medi 2022 | Winchester DAB Ltd |
| **Wolverhampton** | 1 Ebrill 2023 | Wolverhampton DAB Ltd |
| **Wrecsam** | 11 Tach 2023 | Wrexham DAB Ltd |
| **Efrog** | 10 Ebrill 2024 | York Digital Radio CIC |

**Ffigur 1: Map o ardaloedd lle lansiwyd amlblecs**

*Mae'r map isod yn dangos y 64 o amlblecsau sydd wedi'u lansio hyd yma a'u hardaloedd darpariaeth trwyddedig (ar 2 Medi 2024). Sylwch fod y lliwiau at ddibenion eglurhaol yn unig, er mwyn gwahaniaethu rhwng ardaloedd darpariaeth yr amlblecsau cyfagos. Nid yw'r map yn cynnwys ardaloedd trwydded a ddyfarnwyd gan Ofcom sydd heb gael eu lansio eto.*



2.10 Hyd yma mae Ofcom wedi dirymu **14** o ddyfarniadau trwyddedau amlblecs ar y sail ein bod yn credu na fyddai'r sawl sydd wedi cael y drwydded mewn sefyllfa i lansio ei wasanaeth amlblecs o fewn y dyddiad lansio statudol (sef 18 mis o'r datganiad dyfarnu trwydded sydd wedi cael ei gyhoeddi). Mae Tabl 4 yn dangos y dyfarniadau sydd wedi'u dirymu ac yn cynnwys crynodeb o'r rheswm dros y methiant i lansio a nodwyd gan y sawl y dyfarnwyd y drwydded iddo:

**Tabl 4: Dyfarniadau trwydded a ddirymwyd**

| Trwydded | Sawl y dyfarnwyd y drwydded iddo | Dyddiad dyfarnu | Rheswm |
|---|---|---|---|
| Alnwick a Morpeth* | UK DAB Networks Ltd | 19 Gorff 2021 | Hyfywedd masnachol |
| Banbury a Bicester | NOxDAB Ltd | 15 Mai 2023 | Hyfywedd masnachol |
| Glenrothes a Kirkcaldy | GK DAB Ltd | 16 Rhag 2022 | Hyfywedd masnachol |
| Inverclyde* | UK DAB Networks Ltd | 11 Maw 2021 | Cynllun technegol diwygiedig yn annerbyniol i Ofcom |
| Llandudno a Betws-y-Coed | Sound Bay Community Digital CIC | 30 Medi 2022 | Hyfywedd masnachol |
| Ynysoedd Scilly* | Like DAB Ltd | 19 Gorff 2021 | Rhedeg allan o amser |
| Abertawe* | Swansea DAB Ltd | 19 Awst 2022 | Rhedeg allan o amser |
| Taunton | Tone Community Media Group CIC | 18 Hyd 2022 | Rhedeg allan o amser |
| Wakefield, Castleford a Dewsbury | Mid Yorkshire DAB Limited | 2 Mawrth 2023 | Rhedeg allan o amser |
| Warminster, Devizes a Trowbridge* | West Wiltshire Digital Radio CIC | 9 Medi 2022 | Rhedeg allan o amser |
| Wetherby a Harrogate* | Wetherby and Harrogate Local DAB Limited | 16 Tach 2022 | Hyfywedd masnachol |
| Cymoedd Cymru* | GTFM (South Wales) Ltd | 18 Chwefror 2021 | Anawsterau cyllido |
| Wigan* | Wigan & St. Helens Community Media CIC | 12 Mai 2022 | Anawsterau cyllido |
| Arfordir Swydd Efrog | East Coast Digital Radio Limited | 16 Tach 2022 | Hyfywedd masnachol |
| **Cyfanswm** | **14** | | |

2.11 Mae hyn yn cynrychioli **12%** o'r holl drwyddedau amlblecs a ddyfarnwyd gan Ofcom hyd yma. Mae wyth o'r trwyddedau hyn (sydd wedi'u nodi â * yn y tabl uchod) wedi cael eu hail-hysbysebu wedyn, er gyda diwygiadau i'r ardal sy'n cael ei hysbysebu mewn rhai achosion. O'r rhain, mae un wedi lansio (Inverclyde), mae tri o'r trwyddedau hynny wedi cael eu dyfarnu gyda dyddiadau cau statudol ar gyfer lansio ym mis Mawrth 2025 (Alnwick a Morpeth, Cymoedd Cymru ac Ynysoedd Scilly), ac ail-hysbysebwyd y pedair sydd ar ôl yn Rownd Chwech (gyda phob un yn derbyn o leiaf un cais).

2.12 Mae'r rhesymau a nodwyd gan y rhai a gafodd drwydded dros fethu â lansio erbyn y dyddiad cau wedi bod yn amrywiol. Rheswm cyffredin am fethu â lansio a nodwyd gan y rhai a gafodd drwydded oedd methu cwrdd â'r dyddiad cau statudol o 18 mis am resymau logistaidd. Mewn rhai o'r achosion hyn, nid oedd y safleoedd oedd wedi'u cynllunio ar gyfer trosglwyddyddion ar gael ar ôl lansio neu roedd ffioedd safleoedd trosglwyddyddion wedi cynyddu'n sylweddol, oedd yn golygu y bu'n rhaid dod o hyd i safleoedd trosglwyddyddion eraill ar fyr rybudd. Mewn achosion eraill, roedd y rhai y dyfarnwyd trwydded iddynt wedi aros yn rhy hir cyn dechrau paratoi ar gyfer lansio, gan danamcangyfrif yr amser y byddai'n ei gymryd i gael caniatâd cynllunio, i sicrhau cysylltedd ar y safle, neu i gael trosglwyddyddion neu gyfarpar arall.

2.13 Nid yw Ofcom mewn sefyllfa i newid dyddiad cau statudol ei hun gan y byddai angen deddfwriaeth a, beth bynnag, rydym yn sylwi, er bod y dyddiad cau wedi bod yn broblem i nifer fach o'r rhai y dyfarnwyd trwydded iddynt, mae hefyd wedi bod yn ysgogiad clir i lansio gwasanaethau amlblecs yn brydlon. Mae hefyd wedi bod yn bosibl ail-hysbysebu trwyddedau lle nad yw'r rheini y dyfarnwyd trwydded iddynt wedi lansio o fewn y dyddiad cau statudol.

2.14 Mewn chwe achos, roedd y sawl y dyfarnwyd trwydded iddo wedi dod i'r casgliad bod newidiadau yn y farchnad ers gwneud cais am drwydded (fel arfer yn cynnwys cynnydd mewn ffioedd safle trawsyrru a chostau trydan, ynghyd â llai o alw gan ddarparwyr gwasanaethau rhaglenni) wedi gwneud y prosiect yn anymarferol yn economaidd iddynt. Yn yr achosion hyn, yn ddealladwy, ni wnaeth y sawl y dyfarnwyd trwydded iddo fynegi unrhyw ddiddordeb mewn ailymgeisio pe bai'r drwydded yn cael ei hail-hysbysebu.

2.15 Dywedodd rhai oedd wedi methu â lansio eu bod wedi cael trafferth codi'r arian angenrheidiol i sefydlu'r amlblecs. Mewn rhai achosion, roedd hyn yn berthnasol i bobl y dyfarnwyd trwydded iddynt a oedd yn dibynnu ar gyllid grant neu roddion elusennol i sefydlu'r amlblecs.

2.16 Felly, mae cymysgedd o resymau pam mae rhai amlblecsau wedi methu â darlledu ar ôl dyfarnu trwydded ar eu cyfer. Mae'r amlblecsau dan sylw wedi amrywio o ran maint a math o leoliad, felly nid ydym yn credu bod un duedd a allai fygwth hyfywedd ehangach y sector yn y dyfodol. Rydym hefyd o'r farn nad yw nifer y dyfarniadau trwydded y mae Ofcom wedi'u dirymu (12% o'r holl drwyddedau a ddyfarnwyd hyd yma) mor annisgwyl â hynny o gofio'r amodau economaidd heriol sydd wedi bod ers dechrau trwyddedu DAB ar raddfa fach yn 2020. Yn ogystal mae llawer o'r cwmnïau a lwyddodd yn eu cais – fel gorsafoedd radio cymunedol analog – yn fudiadau gwirfoddol yn y bôn, sydd weithiau'n ei chael yn anodd cadw at yr amserlen a bennwyd.

## Problemau ar ôl lansio

2.17 Roedd modd lansio dwy o'r trwyddedau amlblecs a ddyfarnwyd gan Ofcom (Basingstoke a Winchester) erbyn y terfyn amser statudol, ond rhoddwyd y gorau i ddarlledu wedyn wrth i gwmni'r trwyddedai fethu. Roedd cwmni'r trwyddedai, a oedd yn gweithredu'r ddau amlblecs, wedi lansio amlblecs Winchester ym mis Medi 2022 ac amlblecs Basingstoke ym mis Tachwedd y flwyddyn honno, ond rhoddodd y gorau i ddarlledu'r ddau a ddaeth y cwmni i ben yn wirfoddol yn Hydref 2023.

2.18 Trosglwyddwyd y ddwy drwydded amlblecs i berchnogion newydd wedyn, gydag amlblecs Winchester yn dychwelyd i'r awyr ym mis Chwefror 2024 yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus ar gynllun darpariaeth newydd. Adeg ysgrifennu hwn, mae amlblecs Basingstoke yn parhau i fod oddi ar yr awyr tra bo'r perchnogion newydd yn aros am ganiatâd terfynol ar gyfer safle trosglwyddydd newydd. Er bod methu â darlledu yn torri trwydded, a bod trwydded yn debygol o gael ei diddymu yn achos tor-amod parhaus, pan fo anawsterau ariannol a/neu pan nad yw'r safleoedd trawsyrru blaenorol ar gael mwyach, ein blaenoriaeth mewn amgylchiadau penodol ansolfedd yw gweithio gyda'r trwyddedai newydd i ddod o hyd i ffordd ymlaen i adfer darpariaeth ar gyfer y gwasanaethau rhaglenni a'u gwrandawyr.

# 3. Gwasanaethau rhaglenni

3.1 Mae'r tabl isod yn rhestru, **yn nhrefn dyddiad lansio'r amlblecs**, cyfanswm nifer y gwasanaethau rhaglenni (h.y. gorsafoedd radio) sy'n cael eu cludo gan amlblecsau ar raddfa fach ar 2 Medi 2024, ac yn rhestru faint o'r gwasanaethau rhaglenni hyn sy'n gweithredu o dan Wasanaethau Rhaglenni Sain Digidol ('DSP') a thrwyddedau DSP cymunedol ('C-DSP'). Mae'r tabl hefyd yn dangos y nifer gofynnol o slotiau capasiti wedi'u neilltuo (a dim ond gwasanaethau C-DSP sy'n gallu eu defnyddio) ar gyfer pob trwydded.

**Tabl 5: Nifer y gwasanaethau rhaglenni fesul amlblecs**

| Amlblecs (yn nhrefn eu lansio) | Cyfanswm gwasanaethau rhaglenni | DSPs | C-DSPs | Slotiau capasiti wedi'u neilltuo |
|---|---|---|---|---|
| Tynemouth a South Shields | 15 | 11 | 4 | 4 |
| Caergrawnt | 12 | 11 | 1 | 6 |
| Gogledd Birmingham | 24 | 19 | 5 | 7 |
| Caersallog | 21* | 19 | 1 | 3 |
| Newcastle a Gateshead | 16 | 12 | 4 | 7 |
| Bradford | 15 | 13 | 2 | 7 |
| Caeredin | 17 | 14 | 3 | 6 |
| Glasgow | 18 | 14 | 4 | 8 |
| Derry/Londonderry | 5 | 2 | 3 | 4 |
| Sheffield a Rotherham | 9 | 6 | 3 | 7 |
| Blackpool | 12 | 12 | 0 | 4 |
| Caer-wynt | 15 | 13 | 2 | 3 |
| Norwich | 22 | 22 | 0 | 4 |
| Caerdydd | 11 | 8 | 3 | 6 |
| Leeds | 15 | 10 | 5 | 7 |
| Dudley a Stourbridge | 8 | 6 | 2 | 4 |
| King's Lynn | 15* | 14 | 0 | 3 |
| Caerwysg | 10 | 9 | 1 | 4 |
| Clevedon, Avonmouth a Filton | 12 | 12 | 0 | 7 |

| Amlblecs (yn nhrefn eu lansio) | Cyfanswm gwasanaethau rhaglenni | DSPs | C-DSPs | Slotiau capasiti wedi'u neilltuo |
|---|---|---|---|---|
| **Dwyrain Bryste a Keynsham** | 15 | 13 | 2 | 7 |
| **De Birmingham** | 18 | 16 | 2 | 7 |
| **Coventry** | 10 | 7 | 3 | 6 |
| **Caerlŷr** | 9 | 3 | 6 | 9 |
| **Wolverhampton** | 11 | 9 | 2 | 6 |
| **Congleton a Leek** | 5 | 4 | 1 | 3 |
| **Crewe, Nantwich a Whitchurch** | 5 | 4 | 1 | 3 |
| **Manceinion** | 20 | 15 | 5 | 9 |
| **Darlington a Bishop Auckland** | 8 | 6 | 2 | 4 |
| **Stoke a Newcastle** | 5 | 3 | 2 | 6 |
| **Warrington, Widnes a Runcorn** | 7 | 6 | 1 | 5 |
| **Stockport** | 20 | 17 | 3 | 4 |
| **Preston** | 6 | 6 | 0 | 6 |
| **Glossop a Buxton** | 7 | 6 | 1 | 3 |
| **Swydd Gaer (canol)** | 5 | 5 | 0 | 3 |
| **Lerpwl** | 10 | 8 | 2 | 6 |
| **Bolton a Bury** | 7 | 5 | 2 | 6 |
| **Blackburn, Burnley a Darwen** | 7 | 7 | 0 | 6 |
| **Middlesbrough a Redcar** | 6 | 5 | 1 | 5 |
| **Swydd Gaer (dwyrain)** | 5 | 5 | 0 | 5 |
| **Stirling a Falkirk** | 5 | 3 | 2 | 4 |
| **Wrecsam** | 9 | 9 | 0 | 3 |
| **Oldham a Rochdale** | 8 | 5 | 3 | 6 |
| **Plymouth** | 7 | 5 | 2 | 5 |
| **Torbay** | 9 | 8 | 1 | 6 |
| **Aberdeen** | 1 | 0 | 1 | 4 |
| **Nottingham** | 9 | 7 | 2 | 6 |

| Amlblecs (yn nhrefn eu lansio) | Cyfanswm gwasanaethau rhaglenni | DSPs | C-DSPs | Slotiau capasiti wedi’u neilltuo |
|---|---|---|---|---|
| **Belfast a Lisburn** | 10 | 7 | 3 | 9 |
| **Bedford** | 6 | 4 | 2 | 5 |
| **Llwydlo** | 1 | 1 | 0 | 3 |
| **Swindon a Marlborough** | 2 | 1 | 1 | 4 |
| **Efrog** | 3 | 2 | 1 | 5 |
| **Rutland a Stamford** | 3 | 2 | 1 | 3 |
| **Hull** | 13 | 12 | 1 | 6 |
| **Rhydychen** | 6 | 6 | 0 | 5 |
| **Milton Keynes** | 5 | 3 | 2 | 5 |
| **Gogledd Swydd Buckingham** | 1 | 1 | 0 | 4 |
| **Casnewydd a Chas-gwent** | 6 | 6 | 0 | 4 |
| **Newry** | 9 | 8 | 1 | 4 |
| **Southampton** | 5 | 5 | 0 | 8 |
| **Inverclyde** | 5 | 4 | 1 | 3 |
| **Northampton** | 2 | 2 | 0 | 7 |
| **Peterborough** | 5 | 4 | 1 | 5 |
| **Doncaster** | 2 | 2 | 0 | 6 |
| **CYFANSYMIAU** | 590 | 484 | 104 | 330 |
| **CYFARTALEDD** | 9.3 | 7.6 | 1.6 | 5.2 |

*Mae’r cyfanswm yn cynnwys cludo gwasanaethau radio lleol y BBC sy’n cael eu rheoleiddio o dan Siarter y BBC.

## Nifer y gorsafoedd a chapasiti a neilltuwyd

3.2 **Nifer y gwasanaethau rhaglenni, ar gyfartaledd, sy’n cael eu cludo gan amlblecs ar raddfa fach yw 9.3**. Rydym yn disgwyl i’r nifer hwn gynyddu’n raddol dros amser, gan fod llawer o’r amlblecsau a restrir uchod wedi bod ar yr awyr ers llai na blwyddyn. Yn gyffredinol, mae’r amlblecsau mwy hirsefydlog yn darlledu mwy o wasanaethau, gan eu bod yn denu gwasanaethau newydd i’w llwyfan yn raddol. Ar ben hynny, rydym yn disgwyl y bydd llawer o’r amlblecsau ar gyfer de-ddwyrain Lloegr a fydd yn cael eu lansio y flwyddyn nesaf (yn enwedig yr amlblecsau yn Llundain) yn debygol o gael llawer o wasanaethau gan fod y rhain yn cynnwys sawl

ardal leol sydd â phoblogaethau mawr iawn yng nghyd-destun amlblecsau ar raddfa fach.

3.3 **Cymhareb gyfartalog gwasanaethau DSP i C-DSP ar bob amlblecs yw saith neu wyth gwasanaeth DSP i un neu ddau wasanaeth C-DSP.** Yn gyffredinol, mae gwasanaethau C-DSP wedi cymryd mwy o amser i ymddangos ar amlblecsau, er y gall gorsafoedd radio wneud cais am drwydded C-DSP cyn gynted ag y bydd Ofcom yn hysbysebu trwydded amlblecs berthnasol. Fodd bynnag, yn ymarferol, cymharol ychydig o orsafoedd sydd wedi dewis gwneud hyn, sy'n golygu bod amlblecsau fel arfer wedi cael eu lansio heb unrhyw wasanaethau C-DSP, gan gynnwys rhai amlblecsau sy'n cael eu gweithredu gan y gwasanaethau radio cymunedol eu hunain. Ar ben hynny, rydym wedi sylwi bod rhai gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar y gymuned (gan gynnwys rhai cyd-ddarllediadau radio cymunedol analog) wedi dewis darlledu ar amlblecsau ar raddfa fach ar gapasiti heb ei neilltuo o dan drwyddedau DSP yn hytrach nag o dan drwyddedau C-DSP.

3.4 Mae **104 o wasanaethau C-DSP** yn darlledu ar yr amlblecsau a lansiwyd hyd yma. Fel y dangosir yn y tabl uchod, mae gan y mwyafrif o amlblecsau gapasiti wedi'i neilltuo sydd ddim yn cael ei ddefnyddio ar gyfer gwasanaethau C-DSP ychwanegol. Yn yr un modd â gwasanaethau DSP, byddem yn disgwyl i'r nifer sy'n manteisio ar gapasiti wedi'i neilltuo gynyddu'n raddol dros amser, ac roedd Ofcom wedi pennu capasiti wedi'i neilltuo gyda golwg ar annog twf gwasanaethau radio cymunedol yn y dyfodol, yn hytrach na bod pob slot yn cael ei lenwi'n gyflym yn fuan ar ôl ei lansio. Mae amlblecsau ar raddfa fach yn darparu llwybr at ddarlledu digidol, nid yn unig ar gyfer gwasanaethau analog sefydledig, ond hefyd ar gyfer gwasanaethau newydd y mae cymunedau buddiant yn dymuno eu sefydlu yn y blynyddoedd i ddod.

3.5 Yn naturiol, o ystyried bod amlblecsau ar raddfa fach yn amrywio'n sylweddol o ran y boblogaeth maent yn eu gwasanaethu, mae'r ffigurau cyfartalog cymedrig yn cuddio ystod eang iawn o ddarpariaeth ymysg yr amlblecsau. Mae un neu ddau o weithredwyr ond yn darlledu eu gwasanaeth radio eu hunain ar eu hamlblecs hyd yma, ond mae amlblecsau Manceinion, Stockport, Gogledd Birmingham, Caersallog a Norwich yn cario 20 gorsaf neu fwy yr un.

3.6 Mae'n ymddangos mai'r ffactorau mwyaf arwyddocaol sy'n effeithio ar nifer y gorsafoedd radio sy'n cael eu cludo gan amlblecs ar raddfa fach yw'r canlynol:

- Am ba hyd mae'r amlblecs wedi bod yn darlledu;
- Gallu ac awydd y gweithredwr amlblecs i ddenu gwasanaethau rhaglenni newydd, neu i'w darparu ei hun;
- Maint y boblogaeth sy'n cael ei gwasanaethu gan yr amlblecs; a
- Bodolaeth amrywiaeth eang o gymunedau arwyddocaol yn ardal y drwydded (e.e. yn seiliedig ar ethnigrwydd).

3.7 Mae'r ddwy ffactor olaf yn golygu bod amlblecsau trefol sy'n gwasanaethu poblogaethau mawr ac amrywiol yn tueddu i gludo llawer mwy o orsafoedd radio nag amlblecsau sy'n gwasanaethu ardaloedd eraill. Fel y nodwyd yn Adran 2, mae llond llaw o drwyddedeion amlblecs wedi penderfynu peidio â lansio ar sail diffyg hyfywedd masnachol (oherwydd newidiadau yn amodau'r farchnad ers gwneud y cais), ac nid oes cais wedi cael ei wneud am rai trwyddedau o gwbl. Fodd bynnag,

mae enghreifftiau hefyd o amlblecsau sydd wedi'u sefydlu'n llwyddiannus mewn ardaloedd llai poblog.


## Ystod y gwasanaethau

3.8 **Nifer y gwasanaethau rhaglenni sy'n cael eu darlledu** gan y 63 amlblecs ar raddfa fach sydd ar yr awyr ar hyn o bryd, yw **590** i gyd gyda'i gilydd. Fodd bynnag, mae llawer o'r gorsafoedd hyn yn darlledu ar fwy nag un amlblecs ar raddfa fach er mwyn cyrraedd cynulleidfa fwy. Wrth gyfrif gwasanaethau o'r fath unwaith yn unig, **cyfanswm y gwasanaethau rhaglenni unigryw** sy'n cael eu darlledu ar y cyd gan amlblecsau DAB ar raddfa fach yw **292** (ar 2 Medi 2024).

3.9 O'r 292 gwasanaeth rhaglenni unigryw hyn, mae **103 (35%) yn gyd-ddarllediadau** o wasanaethau radio analog (AM/FM) (cymunedol, BBC neu fasnachol), neu'n gyd-ddarllediadau o wasanaethau sydd eisoes yn darlledu ar amlblecsau DAB lleol neu genedlaethol. Mae hyn yn golygu bod **189 o orsafoedd DAB ar raddfa fach yn newydd-ddyfodiaid i ddarlledu radio daearol**, ar ôl cael eu creu'n benodol ar gyfer DAB ar raddfa fach neu, yn y mwyafrif o achosion, oedd ar gael ar-lein yn unig yn flaenorol. Mae'r gorsafoedd hyn yn cyfrif am **65%** o'r gwasanaethau rhaglenni unigryw sy'n darlledu ar amlblecsau DAB ar raddfa fach.

3.10 Er mwyn helpu i ddeall yn well y mathau o gynnwys sy'n cael eu darlledu gan yr amlblecsau DAB ar raddfa fach sydd wedi cael eu lansio, rydym wedi neilltuo pob un o'r gwasanaethau rhaglenni unigryw i un o'r categorïau canlynol:

**Ffigur 2: Gwasanaethau rhaglenni yn ôl math o gynnwys**




## Gwasanaethau lleol

3.11 Dyma'r categori mwyaf o orsafoedd radio sy'n cael eu cludo gan yr amlblecsau ar raddfa fach, sy'n cyfrif am 43% o wasanaethau rhaglenni unigryw (125 o orsafoedd

radio). Mae'r rhain yn cael eu targedu'n gyffredinol at ddemograffeg eang o wrandawyr lleol ac maent yn cynnwys cyd-ddarllediadau o orsafoedd cymunedol analog neu fasnachol bach sy'n bodoli eisoes; gwasanaethau radio ysbyty; gorsafoedd sydd â thrwydded C-DSP sy'n cynnwys rhwymedigaethau cymunedol; a gwasanaethau radio masnachol sydd â ffocws lleol neu ranbarthol sydd â thrwydded DSP. Ymysg yr enghreifftiau niferus o orsafoedd lleol sy'n cael eu cludo ar DAB ar raddfa fach sy'n newydd i ddarlledu daearol (h.y. gorsafoedd nad ydynt hefyd yn darlledu ar FM neu AM) mae Blue Sky Radio sy'n cwmpasu rhannau o Swydd Stafford a Swydd Gaer; Central Radio yn Blackpool; Edge 1 ac Edge 2 yng Nghaeredin; Rookwood Sound yng Nghaerdydd; Winchester Today; Salisbury Radio yn Stockport, Strawberry Radio yn Stockport a Radio Shields sy'n gwasanaethu South Shields.

## Cerddoriaeth arbenigol/thema

3.12 Y categori mwyaf ond un, sy'n cynrychioli 29% o wasanaethau rhaglenni unigryw (84 o orsafoedd radio) yw gorsafoedd cerddoriaeth arbenigol neu gerddoriaeth thema. Gall y rhain weithiau fod â chynnwys lleol, ond maent yn aml yn cael eu darlledu ar draws nifer o amlblecsau ar raddfa fach, a gallant chwarae rhan bwysig yn y gwaith o ehangu dewis y gwrandäwr ar y llwyfan DAB. Ymysg yr enghreifftiau o hyn mae Cosoro Radio (Afrobeat); Frisk Radio (dawns); Radio Caroline (roc); Blue Dot Radio (soul/reggae/jazz); Radio Wigwam (cerddoriaeth indi); WILD Country (canu gwlad/Gwyddelig); Boom Light (cerddoriaeth hawdd gwrando arni) a Panacea Radio (soul/ffync).

## Ethnig leiafrifol a/neu grefyddol

3.13 Mae'r gwasanaethau hyn, sy'n cyfrif am 17% o wasanaethau rhaglenni unigryw (49 gorsaf radio), wedi'u targedu at gymunedau ethnig lleiafrifol a/neu gynulleidfaoedd crefyddol, a gallant fod yn rhai sy'n canolbwyntio ar y gymuned neu'n rhai masnachol. Mae enghreifftiau o orsafoedd sy'n targedu cymunedau ethnig lleol penodol yn cynnwys Spice Radio (Newcastle), Ujima Radio (Bryste), Rajo Radio (Birmingham), Awaz FM (Glasgow) a Panjab Radio (amlblecsau amrywiol). Mae gwasanaethau ffydd yn cynnwys Voice of Islam, Radio Maria, Cross Rhythms a Radio Seerah.

## Ffordd o fyw/cam bywyd

3.14 Mae'r gorsafoedd hyn, sy'n cyfrif am 9.5% o wasanaethau rhaglenni unigryw (28 o orsafoedd radio), yn targedu gwrandawyr sy'n rhannu diddordeb neu ffordd o fyw gyffredin, neu wedi'u hanelu at ddemograffeg oedran gymharol benodol. Efallai y byddant â naws leol, neu efallai ddim. Mae enghreifftiau'n cynnwys Gaydio, GlitterBeam, Fun Kids, Angel Radio ac AllStar Youth Radio. Mae'r categori hwn hefyd yn cynnwys nifer o wasanaethau radio myfyrwyr fel Scratch Radio yn Birmingham, a gorsafoedd radio BFBS sy'n gwasanaethu canolfannau milwrol amrywiol.

# 4. Cynllunio ac adeiladu amlblecs

## Cynlluniau technegol

4.1 Mae'r cynlluniau technegol (h.y. trawsyrru) a gyflwynwyd gan ymgeiswyr am drwyddedau yn nodi eu cynigion ar gyfer sut maent yn bwriadu sefydlu a darparu'r gwasanaeth amlblecs, a'r ddarpariaeth y bydd y gwasanaeth yn gallu ei gynnig yn sgil hynny. Mae'r wybodaeth hon yn cyfrannu'n allweddol at ein hasesiad o ba mor dda y mae ceisiadau'n bodloni meini prawf statudol y drwydded a gaiff ei dyfarnu.

4.2 Yn gyffredinol, mae ansawdd a chysondeb y cynlluniau technegol a geir mewn ceisiadau wedi gwella ers y rownd drwyddedu gyntaf. Er bod angen i Ofcom egluro manylion o bryd i'w gilydd (fel cyfesurynnau lleoliad trosglwyddyddion anghyson, pwerau neu fanylion antena), at ei gilydd mae ceisiadau bellach yn cynnwys digon o dystiolaeth ategol i ganiatáu i ni gynnal ein hasesiadau technegol, a gwneud penderfyniadau ynghylch gallu ymgeisydd i lansio ei wasanaeth.

4.3 Pan fyddwn yn gweld agweddau ar gynllun technegol nad ydynt yn cydymffurfio â'r paramedrau sydd wedi'u nodi yn yr hysbyseb ar gyfer y drwydded, byddwn yn ceisio dod o hyd i gamau syml y gellir eu cymryd a fydd yn sicrhau bod y cais yn cydymffurfio, ond byddwn yn ystyried yr addasiadau hynny fel rhan o'n hasesiad o allu'r ymgeisydd i lansio'r gwasanaeth, yn ogystal ag unrhyw effeithiau ar y ddarpariaeth sy'n deillio o hynny.

4.4 Er nad ydym wedi gweld gostyngiad cyffredinol yng nghyfran y cynlluniau technegol gan ymgeiswyr sydd angen mesurau lliniaru, mae tystiolaeth bod rhagfynegiadau'r ymgeiswyr o ran darpariaeth wrth baratoi eu ceisiadau wedi gwella. Er enghraifft, yn y rownd drwyddedu gyntaf, roedd angen mesurau lliniaru i ddelio â gorlif neu orgyffwrdd gormodol yng nghyswllt wyth o'r 21 ymgeisydd llwyddiannus, ond dim ond pedwar o'r ymgeiswyr llwyddiannus oedd angen yr un addasiad yn Rowndiau Dau, Tri a Phedwar gyda'i gilydd.

4.5 Fodd bynnag, mae Ofcom yn dal i orfod cynnwys mesurau lliniaru i leihau ymyriant rhwng cyd-sianeli o ran amlblecsau sy'n defnyddio'r un amledd mewn mannau eraill, ac i leihau'r risg bod pobl sy'n gwrando ar wasanaethau radio DAB eraill yn colli derbyniad oherwydd 'tyllau' yn y ddarpariaeth, neu ymyriant o du sianeli cyfagos (ACI). Mae'r rhain yn nodweddion anoddach i'w modelu a'u rhagweld na darpariaeth yn unig, ac nid oes unrhyw arwydd bod y ceisiadau'n gwella o ran yr agweddau hyn.

4.6 Pan welir problemau, mae Ofcom yn nodi'r manylion yn y llythyr dyfarnu i'r ymgeisydd llwyddiannus. Yna, bydd angen i'r ymgeisydd gynnig diwygiadau i'r cynllun technegol gwreiddiol cyn y caiff adeiladu a lansio ei wasanaeth.

## Diwygio cynlluniau technegol

4.7 Yn dilyn yr uchod, mae angen i Ofcom gytuno ar Gynllun Technegol Terfynol (FTP) y mae'n rhaid i'r sawl y dyfernir trwydded iddo ei roi ar waith yn llawn o fewn 18 mis i ddyfarnu'r drwydded.

4.8 Fodd bynnag, yn ein profiad ni, mae bron pob un sydd wedi cael trwydded wedi cyflwyno Cynllun Technegol Terfynol sy'n wahanol mewn rhyw ffordd i'r cynllun technegol a gynigiwyd yn wreiddiol yn eu cais (mewn gwirionedd, dim ond 8% sydd wedi gallu cyflwyno Cynllun heb ei newid). Dyma rai o'r rhesymau nodweddiadol dros hyn:

- Addasiadau er mwyn ymdrin ag anawsterau a nodwyd gan Ofcom yng nghyswllt y cynllun technegol gwreiddiol (gweler uchod);
- Methiant i gytuno ar fynediad i safleoedd a gynigiwyd yn wreiddiol (naill ai oherwydd rhesymau cyfreithiol neu am resymau masnachol);
- Canfod safleoedd eraill sy'n gallu cynnig darpariaeth gyfatebol yn fwy effeithlon;
- Methu cael caniatâd cynllunio;
- Ystyriaethau ymarferol wrth adeiladu'r trosglwyddyddion (e.e. diffyg lle ar dŵr trosglwyddydd ar yr uchder a gynlluniwyd); a
- Gwallau neu ddiffygion yn y dyluniad gwreiddiol.

4.9 Mae Cynlluniau Technegol Terfynol diwygiedig yn ei gwneud yn ofynnol i Ofcom wirio'r holl agweddau ar y cynnig o ran darpariaeth ac ymyriant. Mewn llawer o achosion, mân newidiadau oedd eu hangen a bach oedd yr effaith ar y ddarpariaeth a ragwelwyd. Mewn 47% o ardaloedd trwydded, rydym wedi gallu cytuno ar y diwygiad cyntaf o Gynllun.

4.10 Mewn 25% o ardaloedd trwydded, roedd angen ail fersiwn o'r Cynllun, fel arfer oherwydd newidiadau pellach a gynigiwyd gan y trwyddedai, er nad yw Ofcom wedi gallu derbyn y diwygiad cyntaf weithiau oedd yn golygu bod angen addasu ac ail-gyflwyno cais.

4.11 Ar gyfer yr 20% o ardaloedd trwydded sy'n weddill, roedd tri fersiwn neu fwy o'r Cynllun wedi bod yn ofynnol, fel arfer oherwydd bod y newidiadau arfaethedig yn effeithio'n sylweddol ar y ddarpariaeth, neu'n achosi ymyriant mewn mannau eraill.

4.12 Mae pob diwygiad yn golygu bod angen i Ofcom ddefnyddio llawer iawn o adnoddau, gan ein bod yn gorfod ystyried goblygiadau'r newidiadau yn erbyn y dyfarniad trwydded gwreiddiol. Mae hyn yn gosod cyfyngiadau sylweddol ar y cynlluniau rydym yn gallu eu derbyn, yn enwedig mewn achosion lle cafodd y drwydded ei herio.

4.13 Felly, mae Cynlluniau Technegol Terfynol sy'n wahanol iawn i'r hyn oedd wedi'i gynnwys yn y cais gwreiddiol am drwydded yn golygu cryn dipyn o waith ychwanegol, ac o ganlyniad gall gymryd peth amser i'w asesu, sy'n gallu cael effaith ganlyniadol ar amseroedd lansio. Felly, mae'n hanfodol bod ymgeiswyr am drwyddedau yn cynnwys cynigion trawsyrru y maent yn hyderus iawn y byddant yn gallu eu cyflawni.

## Safleoedd trosglwyddyddion a'r ddarpariaeth a ragwelir

4.14 Fel y nodwyd eisoes, un o'r newidiadau mwyaf cyffredin rhwng y cynllun technegol sydd wedi'i gynnwys mewn cais a'r Cynllun Technegol Terfynol yw safleoedd arfaethedig y trosglwyddyddion.

4.15 Mae nifer y safleoedd trosglwyddyddion a gynigir gan ymgeiswyr wedi amrywio o un i wyth, gyda dau drosglwyddydd yn cael eu cynnig gan amlaf. Y nifer cymedrig o drosglwyddyddion sy'n cael eu cynnig ar draws pob rownd yw 2.1 fesul ardal trwydded, gydag amrywiad bach rhwng rowndiau. Yr ymgeiswyr yn Rownd Un oedd yn cynnig y nifer fwyaf o drosglwyddyddion ar gyfartaledd, gyda chyfartaledd cymedrig o 2.5 fesul ardal. Yn Rowndiau Dau a Thri, gostyngodd y nifer cymedrig arfaethedig i 2.0 ac yna 1.7 yn y drefn honno, er bod y nifer wedi cynyddu eto yn Rownd Pedwar, i 2.2 fesul ardal.

4.16 Wrth gymharu nifer y trosglwyddyddion a ddarparwyd yn erbyn cynigion y cais gwreiddiol am drwydded, rydym wedi gweld bod rhai trwyddedeion wedi darparu llai o drosglwyddyddion na'r hyn a gynigiwyd yn wreiddiol, ond mae rhai wedi darparu mwy.

4.17 Mae darpariaeth ddisgwyliedig y trosglwyddyddion yn cael ei mesur drwy ragfynegi nifer yr oedolion (15 oed a hŷn) yn ardal y drwydded a hysbysebir y rhagwelir y byddant yn gallu cael signal o safon sylfaenol ddiffiniedig[2], a mynegi'r nifer hwnnw fel canran o holl boblogaeth oedolion ardal y drwydded sy'n cael ei hysbysebu.

4.18 Yn Rowndiau Un i Dri, roedd y ddarpariaeth gyfartalog a ragwelwyd adeg dyfarnu'r trwyddedau yn amrywio rhwng 78.5% a 82%. Yn Rownd Pedwar, roedd y ddarpariaeth gyfartalog a ragwelwyd wedi gostwng i 68.1%. Y rheswm tebygol am hyn yw bod yr ardaloedd trwydded a hysbysebwyd yn Rownd Pedwar yn cynnwys nifer uwch o ardaloedd gyda phoblogaethau mwy gwasgaredig na'r ardaloedd a hysbysebwyd mewn rowndiau cynharach.

4.19 Wrth edrych ar y ddarpariaeth a ragwelwyd y mae trwyddedeion wedi gallu ei chynnig yn ymarferol gyda'r amlblecsau a lansiwyd ganddynt, roedd y ddarpariaeth yng nghyswllt y rheini a oedd wedi'u trwyddedu yn y tair rownd trwyddedu gyntaf ar gyfartaledd rhwng 74% a 78%, gostyngiad nodweddiadol o ddau i bedwar pwynt canran yn erbyn yr hyn a ragwelwyd yn wreiddiol. Mewn gwirionedd, roedd y trwyddedeion yn Rownd Pedwar wedi rhagweld darpariaeth uwch na'r disgwyl, sef 73.2%, sy'n gynnydd o ychydig dros bum pwynt canran.

4.20 Wrth edrych ar y rowndiau i gyd, mae'r ddarpariaeth gyfartalog sy'n cael ei chynnig gan amlblecsau sydd wedi'u lansio o fewn 2% i'r hyn a ragwelwyd ar y cam dyfarnu trwydded, sef 76% (darpariaeth wirioneddol) o'i gymharu â 78% (darpariaeth a ragwelwyd adeg dyfarnu'r drwydded).

[2] Lefel signal a ragwelir o 63 dBµV/m ar 10 metr uwchben y ddaear o leiaf

## Amserlenni lansio

4.21 O dan y ddeddfwriaeth DAB ar raddfa fach, mae'n rhaid i drwyddedeion ddechrau darparu eu gwasanaeth amlblecs o fewn 18 mis i ddyfarnu'r drwydded.

4.22 Ar gyfartaledd, mae wedi cymryd 15.1 mis i'r rhai y dyfarnwyd trwydded iddynt lansio eu hamlblecsau, sy'n oedi o 6.6 mis ar gyfartaledd o gymharu â'r hyn a ragwelwyd gan ymgeiswyr yn eu ceisiadau am drwydded.

4.23 Fodd bynnag, dim ond rhan o'r stori mae'r cyfartaledd (cymedrig) hwn yn ei bortreadu. Mae rhai amlblecsau wedi lansio'n gyflym iawn, er mai dim ond pedwar sydd wedi llwyddo i lansio o fewn chwe mis i ddyfarnu'r drwydded (sef Blackpool, Coventry, Caerlŷr a Wolverhampton). Yr amser canolrifol a gymerir i lansio amlblecs yw 17.2 mis, sy'n golygu bod hanner yr holl amlblecsau a lansiwyd hyd yma wedi gwneud hynny o fewn tua thair wythnos diwethaf y cyfnod statudol o 18 mis.

4.24 Mae sawl rheswm pam mae amlblecsau wedi cymryd mwy o amser i'w lansio na'r disgwyl. Dyma rai o'r rhesymau mwyaf cyffredin:

- Anhawster codi'r arian angenrheidiol i brynu offer a llofnodi cytundebau mynediad i'r safle;
- Newidiadau o ran aelodaeth neu berchnogaeth y corff y dyfarnwyd y drwydded iddo;
- Cynnydd yng nghostau safle trawsyrru (er enghraifft, canfod y bydd y safle a gynigiwyd yn y lle cyntaf yn costio mwy na'r disgwyl ar ôl datblygu cynlluniau manwl, a/neu'r angen am flaendal sylweddol na ragwelwyd ar y cam ymgeisio);
- Analluy i symud o gytundeb mewn egwyddor i gytundeb cyfreithiol ffurfiol i ddefnyddio safle trawsyrru mewn modd amserol. Cafwyd sawl enghraifft pan fo cynrychiolydd sefydliad wedi rhoi cefnogaeth mewn egwyddor i (er enghraifft) rannu to adeilad, ond yn aml mae troi hynny'n gytundeb ffurfiol sy'n cynnwys eiddo, timau masnachol neu dimau cyfreithiol y sefydliad wedi cymryd amser hir.

4.25 Efallai y bydd rhai o'r rhesymau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i'r sawl y dyfarnwyd trwydded iddo chwilio am safle trosglwyddydd arall, sydd wedi golygu ailddechrau trafodaethau â pherchennog safle arall, yn ogystal â gorfod diwygio ei gynllun technegol a chael cytundeb Ofcom iddo.

4.26 O gofio bod mynediad i safle trosglwyddydd yn un o brif ysgogwyr amserlenni lansio estynedig, ac mai hyn sydd i gyfrif am y mwyafrif o'r newidiadau i Gynlluniau Technegol Terfynol, byddem yn annog ymgeiswyr am drwyddedau yn y dyfodol i archwilio'r amserlenni ar gyfer cwblhau cytundebau gyda landlordiaid safle mor llawn â phosibl, ac i ddeall yr holl gostau sy'n debygol o godi. Byddem hefyd yn annog partïon sy'n cael trwydded i ddechrau'r gwaith o gael mynediad i safle yn gynnar er mwyn lleihau'r risg y byddant yn rhedeg allan o amser i lansio o fewn y 18 mis sy'n ofynnol.

## Ceisiadau am newid i'r ddarpariaeth ar ôl lansio

4.27 Ar ôl lansio, mae nifer bach o drwyddedeion wedi gofyn am sêl bendith i wneud newidiadau i'w rhwydwaith ar-yr-awyr. Mae'r rhain i'w gweld yn Nhabl 6 isod. Mae

polisi Ofcom ar ystyried newidiadau i ddarpariaeth ar ôl lansio wedi'i nodi yn Adran 7 ein Nodiadau Cyfarwyddyd ar gyfer Ymgeiswyr a Thrwyddedeion.

**Tabl 6: Ceisiadau am newid i'r ddarpariaeth ar ôl lansio**

| Ardal | Natur y cais am newid ar ôl lansio y cytunwyd arno gan Ofcom |
|---|---|
| **Basingstoke** | Newid safle'r trosglwyddydd oherwydd hyfywedd masnachol |
| **Bradford*** | Ail-leoli safle un trosglwyddydd oherwydd ailddatblygu adeiladau |
| **Caergrawnt** | Cynnydd mewn pŵer i wella dibynadwyedd derbyniad mewn rhai ardaloedd |
| **Caerdydd** | Cynnydd mewn pŵer i wella dibynadwyedd derbyniad mewn rhai ardaloedd |
| **Lerpwl** | Cynnydd mewn pŵer i wella dibynadwyedd derbyniad mewn rhai ardaloedd |
| **Warrington** | Safle ar gyfer trosglwyddydd ychwanegol a chynnydd mewn pŵer i wella'r ddarpariaeth |
| **Caer-wynt*** | Newid safle'r trosglwyddydd oherwydd hyfywedd masnachol |

*Cytunwyd ar ôl ymgynghoriad cyhoeddus

# 5. Y tu hwnt i Rownd Chwech

5.1 Yn ein hymgynghoriad yn 2019: Trwyddedu DAB ar raddfa fach roeddem wedi dweud “ers tro byd mae Ofcom wedi cydnabod y manteision i ddefnyddwyr drwy hwyluso llwybr mudo at DAB ar gyfer gorsafoedd radio masnachol a chymunedol analog bach. Rydym hefyd wedi cydnabod bod angen darparu llwybr fforddiadwy at ddarlledu drwy radio digidol tiriogaethol ar gyfer y rheini sy’n ymuno â’r farchnad, er mwyn darparu dewisiadau gwrando newydd ac arloesol i wrandawyr.”

5.2 Ar sail y dystiolaeth yn yr adroddiad hwn, rydym o’r farn bod cyflwyno DAB ar raddfa fach ledled y DU wedi bod yn llwyddiannus hyd yma o ran y canlynol:


- Darparu llwybr at radio digidol ar gyfer gwasanaethau radio cymunedol analog presennol;
- Darparu mynediad at radio daearol digidol ar gyfer pob math o orsafoedd nad ydynt yn gallu sicrhau cludiant ar amlblecsau DAB lleol neu nad ydynt yn gallu fforddio hynny. Mae hyn wedi annog arloesi mewn rhaglenni a newydd ddyfodiaid i’r sector radio; a
- Darparu mwy o ddewis ar y llwyfan DAB i wrandawyr. Mae hyn wedi cynnwys cynnydd sylweddol yn argaeledd gwasanaethau ‘llawr gwlad’ lleol, gorsafoedd sy’n darparu ar gyfer cymunedau ethnig lleiafrifol, a gorsafoedd sy’n darparu cerddoriaeth arbenigol.

5.3 Wedi dweud hynny, rydym yn cydnabod mai cymharol ychydig o amlblecsau sydd wedi gallu trosi lefelau’r galw a’r gefnogaeth gan ddarparwyr gwasanaethau rhaglenni a nodwyd yn eu ceisiadau yn bresenoldeb ar amlblecsau yn y byd go iawn. Mae’r amrywiaeth eang yn nifer y gorsafoedd radio sy’n cael eu cludo gan yr amlblecsau yn golygu y bydd hyd a lled y dewis ychwanegol i wrandawyr sy’n cael ei ddarparu gan DAB ar raddfa fach yn amrywio’n fawr o ardal i ardal, gydag amlblecsau trefol fel arfer yn gallu cynnig mwy o orsafoedd i wrandawyr.

5.4 Yn gyffredinol, mae cyfuniad o gostau trawsyrru uwch a llai o alw gan ddarparwyr gwasanaethau rhaglenni yn golygu bod gweithredwyr amlblecsau mewn ardaloedd llai poblog wedi’i chael yn fwy anodd darparu amlblecsau sy’n ariannol hyfyw na gweithredwyr mewn ardaloedd trefol. Serch hynny, mae amlblecsau llai yn dal i ddarparu manteision o ran dewis i ddefnyddwyr a chyfleoedd i wasanaethau newydd a sefydledig, ac rydym wedi gweld nifer o amlblecsau’n cael eu lansio mewn ardaloedd llai poblog, fel Congleton a Leek, Glosop a Buxton, King’s Lynn, Llwydlo a Newry. Dangosodd ein hymarfer ‘datganiadau o ddiddordeb’ y llynedd bod gweithredwyr amlblecs posibl mewn ardaloedd eraill llai poblog sy’n hyderus y gallant lansio amlblecsau sy’n gynaliadwy yn ariannol.

5.5 Yn olaf, rydym yn nodi bod y pum mlynedd diwethaf wedi parhau i weld nifer sylweddol o wrandawyr yn symud oddi wrth radio analog (AM/FM) i lwyfannau digidol, a DAB yw’r mwyaf poblogaidd o hyd, fel y dangosir yn Ffigur 3 isod:

### Ffigur 3: Cyfran y gwrando ar y radio yn ôl llwyfan 2019 - 2024




*Ffynhonnell: RAJAR. Sylwer: mae'r llinell ddotiog yn nodi gohirio gwaith maes o ddiwedd Ch1 2020 tan Ch3 2021 oherwydd cyfyngiadau symud Covid-19. Arweiniodd hyn at newidiadau dilynol mewn methodoleg, felly dylid bod yn ofalus wrth gymharu â chwarteri blaenorol. Mae DTV yn deledu digidol – mae ymatebwyr yn dosbarthu gwrando felly gall gynnwys rhywfaint o IPTV.*

5.6 Yn ôl Traciwr Technoleg Ofcom 2024, roedd gan ychydig o dan dri o bob deg aelwyd set radio DAB yn y cartref (27%) ac roedd gan 46% un yn y car, gan ddod â pherchnogaeth gyffredinol yr aelwyd i 57%. Mae'r ffigur hwn yn debygol o barhau i dyfu wrth i ganran y ceir ar y ffordd sy'n cynnwys setiau DAB gynyddu (mae DAB wedi bod yn ofyniad safonol ar gyfer pob car sy'n cludo teithwyr sydd wedi cael ei gynhyrchu ers mis Rhagfyr 2020).

## Rhagor o drwyddedau DAB ar raddfa fach

5.7 Yng ngoleuni'r uchod, rydym yn bwriadu hysbysebu'r ardaloedd canlynol yn **Rownd Saith** trwyddedu amlblecs ar raddfa fach tua diwedd 2024 neu ddechrau 2025:

- Arbroath, Carnoustie a Montrose
- Berkshire a de Swydd Rydychen
- Bridgwater
- Bromsgrove, Kidderminster a Redditch
- Cirencester
- Ely a March
- Enniskillen
- Exmouth a Dawlish
- Caerloyw
- Caerhirfryn
- Llanelli
- Loughborough a Coalville
- Market Harborough

- Malton
- Midlothian
- De Arfordir Moray
- Newark-on-Trent
- Gogledd Norfolk
- Gogledd Gwlad yr Haf
- Oban
- Ringwood, Verwood a Fordingbridge
- Rugby a Daventry
- Stockton-on-Tees
- Wellingborough
- Gorllewin Gwlad yr Haf a Lynton
- Ynysoedd y Gorllewin
- Weston-Super-Mare
- Witney
- Caerwrangon

5.8 Mae'r uchod i gyd yn ardaloedd 'polygon' a nodwyd yn wreiddiol yn ein Datganiad trwyddedu DAB ar raddfa fach yn 2020, ac a gafodd eu dewis ar gyfer hysbysebu gan ddefnyddio'r ffactorau sydd wedi'u nodi yn y datganiad hwnnw.

5.9 Yn dilyn datganiadau o ddiddordeb a ddaeth i law, bydd Rownd Saith hefyd yn cynnwys yr ail-hysbysebion canlynol ar gyfer trwyddedau a ddyfarnwyd yn flaenorol, neu ardaloedd trwydded a hysbysebwyd yn flaenorol nad oedd wedi denu unrhyw ymgeiswyr:

- Penrhyn Ards
- Taunton
- Wakefield & Castleford[3]

5.10 Roedd datganiad Ofcom yn 2020 yn rhagweld y byddai'r rhaglen DAB ar raddfa fach yn cynnwys wyth rownd o drwyddedu ac, yn gyson â hynny a lefel y cynnydd a nodir yn yr adroddiad hwn, rydym yn bwriadu gorffen y rhaglen drwyddedu bresennol â **Rownd Wyth.** Yn yr un modd â Rownd Saith, bydd hyn yn cynnwys trwyddedau ar gyfer ardaloedd yn ein datganiad gwreiddiol nad ydynt wedi cael eu hysbysebu eto, yn ogystal â nifer fach o ardaloedd trwydded a hysbysebwyd yn flaenorol nad oedd wedi denu ceisiadau ond lle cafwyd datganiadau o ddiddordeb mewn ymgeisio ar ôl hynny, a lle mae sbectrwm ar gael o hyd.

5.11 O ystyried mai un o'r meini prawf a ddefnyddiwyd i flaenoriaethu ardaloedd ar gyfer hysbysebu trwyddedau oedd lefelau'r galw a fynegwyd, rydym yn rhagweld y

[3] Yng ngoleuni'r sylwadau a gafwyd gan y sawl y dyfarnwyd y drwydded hon iddo yn flaenorol, ni fydd ardal drwydded Wakefield a Castleford, sydd wedi cael ei hail-hysbysebu, yn cynnwys Dewsbury mwyach.

bydd llai o alw am drwyddedau yn Rownd Wyth na mewn rowndiau blaenorol. Fodd bynnag, rydym o'r farn ei bod yn deg cynnig cyfle i wneud cais am ardaloedd trwydded a gafodd eu cynnwys yn natganiad 2020, ac mae tystiolaeth o'r rhaglen drwyddedu hyd yma yn dangos bod digon o alw i gyfiawnhau gwneud hynny.

5.12 Rydym yn disgwyl gallu cadarnhau ardaloedd Rownd Wyth yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn nesaf. Bydd yr union ddyddiad hysbysebu yn dibynnu ar nifer y ceisiadau a ddaw i law ar gyfer Rownd Saith.

5.13 Er mai ein bwriad yw i Rownd Wyth fod y rownd olaf yn y rhaglen drwyddedu bresennol, nid yw hynny'n golygu ein bod yn diystyru hysbysebu trwyddedau amlblecs ar raddfa fach ychwanegol, neu eu hail-hysbysebu, yn y dyfodol ar sail y galw a fynegir. Fodd bynnag, byddai'r rhain yn fwy tebygol o fod ar ffurf hysbysebion untro ar gyfer un drwydded, neu lond llaw o drwyddedau, a byddai angen eu hystyried ochr yn ochr â blaenoriaethau trwyddedu eraill Ofcom.

5.14 Y tu hwnt i drwyddedu amlblecsau newydd, rydym hefyd yn ymwybodol y bydd rhai gwasanaethau'n dymuno gwneud eu darpariaeth yn fwy cadarn yn ardal eu trwydded, a/neu efallai y byddant am ymestyn eu darpariaeth i ardaloedd lleol eraill nad ydynt yn cael eu gwasanaethu, pan fo hyn yn cyd-fynd â'r ddeddfwriaeth DAB ar raddfa fach (yn benodol, y terfyn 40% ar y gorgyffwrdd ag amlblecsau DAB lleol presennol). Byddwn yn ystyried i ba raddau y mae angen gwneud hyn ar ddiwedd y rhaglen drwyddedu ffurfiol.

## Trwyddedu FM

5.15 Rydym wedi cael sylwadau gan rai gweithredwyr gorsafoedd radio yn dweud wrthym y byddai'n llawer gwell ganddynt ddarlledu ar FM na DAB ar raddfa fach. Fodd bynnag, am y rhesymau polisi a nodir ar ddechrau'r bennod hon, ac oherwydd y bydd DAB ar raddfa fach yn cynnig mwy o orsafoedd i gynulleidfaoedd yn y pen draw, yn fwy effeithlon, ac mewn mwy o leoliadau, nag y gallai FM byth, rydym yn credu y dylem barhau i ganolbwyntio ar drwyddedu DAB ar raddfa fach, o leiaf tan ar ôl i ni gwblhau Rownd Wyth, cyn i ni ystyried y posibilrwydd o fwy o drwyddedu FM mewn ardaloedd lle mae galw.

## Trwyddedu DAB lleol

5.16 Rydym hefyd yn ymwybodol bod rhai yn y diwydiant radio a fyddai'n hoffi gweld Ofcom yn rhoi blaenoriaeth yn hytrach i hysbysebu amlblecsau DAB lleol ychwanegol, sydd ag ardaloedd darpariaeth llawer mwy nag amlblecsau DAB ar raddfa fach.

5.17 Barn Ofcom yw y byddai trwyddedu rhagor o amlblecsau radio lleol yn annhebygol o gyflawni, ar sail gyson, nifer o brif fanteision DAB ar raddfa fach sydd wedi'u nodi ar ddechrau'r adran hon, fel gallu mudo gwasanaethau radio cymunedol analog i radio digidol, a darparu cyfleoedd fforddiadwy i newydd-ddyfodiaid. Felly, am y tro, rydym yn credu y dylem barhau i ganolbwyntio ar drwyddedu DAB ar raddfa fach, o leiaf tan ar ôl inni gwblhau Rownd Wyth, cyn i ni ystyried y posibilrwydd o ragor o drwyddedu amlblecs DAB lleol mewn ardaloedd lle mae galw ac amleddau ar gael.